# Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015

**2015 dccc 6**

*Gofynion gwybodaeth*

### 37 Gofyniad ar awdurdod sy'n uno i ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru

Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod sy'n uno ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol ei gwneud yn ofynnol ei darparu iddynt at ddibenion rhoi effaith i drosglwyddo swyddogaethau'r awdurdod sy'n uno i'r prif awdurdod lleol newydd ar gyfer y brif ardal newydd y mae ardal yr awdurdod sy'n uno i gael ei huno i'w chreu, neu fel arall mewn cysylltiad â hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 37 mewn grym ar 25.1.2016, gweler **a. 46(1)**

### 38 Gofyniad ar awdurdod sy'n uno i ddarparu gwybodaeth i awdurdodau eraill

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod sy'n uno ddarparu i gorff perthnasol unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod sy'n uno ei darparu i'r corff perthnasol at ddibenion rhoi effaith i drosglwyddo swyddogaethau'r awdurdod sy'n uno i'r prif awdurdod lleol newydd ar gyfer y brif ardal newydd y mae ardal yr awdurdod sy'n uno i gael ei huno i'w chreu, neu fel arall mewn cysylltiad â hynny.

(2) Mae'r canlynol yn gyrff perthnasol—

(a) unrhyw awdurdod arall sy'n uno y mae ei ardal i gael ei uno i greu'r un brif ardal newydd;

(b) y pwyllgor pontio a sefydlwyd gan yr awdurdod sy'n uno ac awdurdod arall neu awdurdodau eraill sy'n uno;

(c) yr awdurdod cysgodol ar gyfer y brif ardal newydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 38 mewn grym ar 25.1.2016, gweler **a. 46(1)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/01/2016.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015, Croes Bennawd: Gofynion gwybodaeth.